



Ymateb i COVID-19: protocol ar gyfer cydweithio

UCHELGAIS A RENNIR

Y flaenoriaeth a rannwn yw iechyd a diogelwch pobl a chymunedau ar draws Cymru yn ystod yr argyfwng hwn. Gwnawn bopeth a allwn i sicrhau hynny. Mae gan awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr oll rolau hanfodol i'w cyflawni wrth inni geisio ymateb gyda'n gilydd i COVID-19 yng Nghymru. Byddwn yn cydlynu'r ymateb hwnnw lle bynnag y gallwn, fel ein bod oll yn gwneud gwahaniaeth mwy gyda'n gilydd.

EGWYDDORION AR GYFER CYDWEITHIO

Deallwn fod y sefyllfa yn symud yn gyflym ac y bydd angen i ardaloedd lleol ymateb i'r sefyllfa benodol yn eu cymunedau. Dylai'r egwyddorion isod ein cefnogi i weithio gyda'n gilydd yn effeithiol o fewn y cyd-destun hwn. Mae'r WLGA, Un Llais Cymru a WCVA yn ymrwmo i'w dilyn.

- Parch at ein gilydd – rydym yn deall a gwerthfawrogi'r cyfraniadau gwahanol a wna pob un ohonom.
- Cyfathrebu – bydd gennym bwytiau cyfathrebu clir a rheolaidd rhyngom, gyda'n sectorau a chyda phartneriaid eraill ar faterion sy'n pryderu pob un ohonom.
- Rhannu gwybodaeth - byddwn oll yn rhannu gwybodaeth all ein helpu i gefnogi pobl a chymunedau mewn ffordd amserol ac effeithiol.
- Hyblygrwydd – byddwn yn canolbwyntio ar yr hyn mae'n rhaid inni ei wneud i amddiffyn iechyd a diogelwch pobl yn ystod yr argyfwng hwn. Byddwn yn cytuno i roi ymrwymadau heb fod yn hanfodol i'r neilltu lle y bo angen ond bydd amddiffyn pobl fregus yn parhau'n ystyriaeth bwysig.

- Cyd-gynhyrchu atebion – byddwn yn gweithio gyda'n gilydd, gan ddefnyddio ffordd o weithio a gytunwyd rhyngom er mwyn llunio atebion all wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gan bob un ohonom.